Tasglu Llawrydd Cymru
walesfreelancetaskforce@gmail.com
9 Hydref 2020

Dafydd Elis-Thomas a Eluned Morgan
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol a Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Cronfa Adferiad Diwylliannol Llawryddion**

Annwyl Eluned a Dafydd,

Rydym yn ysgrifennu ar ran Tasglu Llawrydd Cymru (yn cynrychioli gweithwyr llawrydd yn y sector theatr a perfformio yng Nghymru) i ymateb i gam cyntaf y Gronfa Adferiad Diwylliannol Llawrydd. Wrth weld pa mor gyflym y dosbarthwyd yr arian (yn enwedig yn Ne Cymru) mae'n glir bod yr angen llawer mwy na'r cyllid sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y gronfa hyd yn hyn. Rydym felly yn annog Llywodraeth Cymru i ymroi cyllid ychwanegol i'r gronfa er mwyn sicrhau bod gweithlu llawrydd creadigol a chelfyddydol Cymru yn goroesi.

Wnaethom ysgrifennu atoch ym Mehefin ac Awst i fanylu bod 72% o'r gweithlu theatr yn weithwyr llawrydd. Mi ofynnon i chi neilltuo 25-30% o'r Gronfa Adfer Diwylliannol ar gyfer gweithwyr llawrydd. Rwan mae'n amlwg bod tystiolaeth yn dangos bod angen y lefel yma o gefnogaeth, a hebddo bydd llawer o'r gweithlu llawrydd celfyddydol yn gadael y sector a/neu Cymru.

Mae'r £7m sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y gronfa hyd yn hyn yn 13% yn unig o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol £53m. Mae'r arian wedi darparu 2,800 grant o £2,500 yr un. Rydym yn gofyn i chi ychwanegu 17% er mwyn cyflawni y 25-30% yr ydym yn argymell. Byddai hyn yn ychwanegu £9m i'r gronfa ac yn daparu 3,600 grant ychwanegol.

Rydym yn cyfeirio chi at yr Arolwg Llawrydd Cymru sydd yn dangos bod caledi ariannol wedi syrthio'n anghymesur ar y gweithlu llawrydd:

- Roedd 94% o'r gweithwyr llawrydd ym maes y theatr a pherfformio yng Nghymru wedi colli gwaith yn sgil Covid-19.
- Roedd 47% heb dderbyn unrhyw gymorth ariannol gan gynllun SEISS y Llywodraeth.
- Mae 27% heb incwm digonol i fyw arno.
- Mae 33% yn ansicr a fyddant yn aros yn y diwydiant ai peidio.

Rydym wedi croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi y sectorau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth. Rydym yn cymeradwyo eich cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y gweithlu llawrydd fel rhan annatod o'r ecoleg gelfyddydol. O gymhariaeth efo Lloegr, lle mae San Steffan wedi dangos amharch tuag at ein cydweithwyr llawrydd, mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd. Rydym yn gofyn i chi arwain y ffordd unwaith eto, gan gydnabod na fydd y gronfa gwreiddiol o £7m yn ddigon i gefnogi'r gymuned

lawrydd, a rydym yn erfyn arnoch i gyflawni potensial llawn y gronfa adferiad angenrheidiol yma gan gynyddu y cyllid.

Rydym wedi ymgynghori ar ddatblygiad y gronfa yma, ac er bod problemau wedi bod gyda'r broses ymgeisio, rydym yn gefnogol o'r fframwaith cymhwysiant a rydym yn gwerthfawrogi'r ymdrechion llwyddiannus i gysylltu gyda a gwrando i'r gymuned llawrydd. Ond, gyda'r cyllid fel y mae, bydd cam dau o'r gronfa, fel cam un, yn ras anodd ar gyfer arian gyda llawer yn methu cael arian oherwydd eu côd post. Rhedodd cam un allan o arian yng Nghaerdydd ymhen awr. Nid dyma'r gronfa gyfiawn rydym i gyd wedi bod yn gweithio arno. Mae unigolion yn dioddef oherwydd anghenion hygyrchedd, angen gofalu am blant, angen gweithio, neu oherwydd nad oeddent yn ddigon cyflym i roi eu cais i mewn o fewn awr. Mae hyn oll yn gwneud niwed i lesiant gweithwyr llawrydd sydd ar ochr y dibyn, ac yn gweld y cyfle a gynnigwyd gan y gronfa yn diflannu mor gyflym a mewn ffordd anheg. Mae'n bwysig bod pob un o'r gweithlu celfyddydol llawrydd sydd mewn angen yn cael cefnogaeth, a gobeithio eich bod yn gweld y budd o hyn.

Mae asesiad ceisiadau sefydliadau ar gyfer y Gronfa Aderiad Diwylliannol yn digwydd ar hyn o bryd. Tra bod hyn yn digwydd, cofiwch na fyddai'r sefydliadau yn bodoli heb y gweithwyr llawrydd sydd yn cyflawni'r gwaith a sydd yn cysylltu efo'r cynulleidfaoedd a'r cymunedau. Mae gan weithwyr llawrydd yn y sectorau diwylliannol rôl i'w chwarae wrth i ni chwilio'n ffordd ac adfer o'r argyfwng Covid-19, a maent yn hanfodol ar gyfer cyflawni y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai cynyddu cyllid y gronfa bwysig hon yn galluogi iddynt gyflawni y potensial yma er budd cynulleidfaoedd a chymunedau ledled Cymru.

Yr eiddoch yn gywir,

Deborah Light and Steffan Donnelly.

Tasglu Llawrydd Cymru

Wales Freelance Taskforce
walesfreelancetaskforce@gmail.com
9 October 2020

Dafydd Elis-Thomas and Eluned Morgan
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism and Minister for International Relations and the Welsh Language
Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

**Freelance Cultural Recovery Fund**

Dear Eluned and Dafydd,

We are writing on behalf of the Wales Freelance Taskforce (representing freelancers in the theatre and performance sector in Wales) in response to the first phase of the Freelance Cultural Recovery Fund. Given the speed at which fund allocations were met (particularly in South Wales) it is now clear that the need for this fund is significantly greater than the money allocated to date. We therefore urge the Welsh Government to dedicate additional monies to this fund to enable the survival of the creative and cultural workforce in Wales.

In July and August, we wrote to you detailing the fact that 72% of the theatre workforce is freelance. We requested that 25-30% of the Cultural Recovery Fund be designated to freelancers. We now assert that the need for this level of support has been evidenced and without it many cultural freelancers will be forced to leave the sector and/or Wales. Additionally we draw your attention to the Wales Freelance Survey which shows that financial hardship has fallen disproportionately on the freelance workforce:

- 94% of theatre and performance freelancers in Wales lost work due to Covid-19.
- 47% received no financial support from the Government's SEISS scheme.
- 27% do not have sufficient income to live on.
- 33% do not know whether they will stay in or leave the industry.

The £7m dedicated to this fund so far is just 13% of the £53m Cultural Recovery package. This has provided 2,800 grants of £2,500 each. We now ask for that to be topped up by 17% to reach the aforementioned 25-30%. This would increase the fund by £9m and provide a further 3,600 grants.

We have welcomed the Welsh Government's commitment to supporting the arts, culture, and heritage sectors. We applaud your recognition of the freelance workforce as a key part of the cultural ecology. You have led the way on this in comparison to England, where Westminster has shown disregard for English freelance colleagues. We ask you to lead the way again, by recognising that the initial £7m budget is not enough to support the freelance community, and fulfilling the true potential of this much-needed recovery fund by increasing its budget.

We have advised on the development of this fund and, while there have undoubtedly been problems with its delivery, we are supportive of the eligibility framework and appreciate the level of consultation that has

taken place. However, as the budget stands phase two will, like phase one, be a stressful race for cash with people inevitably losing out depending on their postcode. Phase one in Cardiff closed in under an hour. This is not the equitable fund that we have all worked towards. People are losing out because of access needs, looking after their children, they need to work, or simply because they did not manage to submit their application in under an hour. This is having a devastating impact on the wellbeing of cultural freelancers as a lifeline is pulled away from them. We want to see all the cultural freelance workforce who are in need supported, and we hope you see the benefit in doing so.

Organisations' applications to the Cultural Recovery Fund are currently being assessed. As that is happening, please keep in mind that these organisations have little value without the freelancers who bring them to life, deliver the work, and engage with Wales' audiences and communities. As freelance cultural workers we have a key role to play as society navigates through and recovers from the Covid-19 crisis, and we can play a lead role in the delivery of the Future Generations Act. Increased allocation to this important fund will enable us to fulfil this potential for the benefit of audiences and communities across Wales.

Yours sincerely,

Deborah Light and Steffan Donnelly.

Wales Freelance Taskforce.